22. Y Flwyddyn Ysgol ac Amserau Sesiynau

Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r cyfrifoldeb dros bennu dyddiadau tymhorau ac amserau sesiynau ysgolion.

Cefndir

1. Mae Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 yn berthnasol i ysgolion a gynhelir gan ALlau ac i ysgolion arbennig (boed yn rhai a gynhelir ai peidio). Maent yn gwneud darpariaethau (ymysg pethau eraill) ar gyfer diwrnod ysgol a fydd fel arfer yn cael ei rannu i ddwy sesiwn (gydag egwyl yn y canol), ac ar gyfer ysgolion (ac eithrio ysgolion meithrin) i gyfarfod am o leiaf 380 sesiwn, sy'n gyfwerth â 190 diwrnod, yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

2. Mae'r amodau a thelerau safonol ar gyfer athrawon yn darparu ar gyfer 195 diwrnod gwaith, ac mae 190 o'r rhain yn ddiwrnodau addysgu. Mae'n ofynnol i'r 5 diwrnod dros ben fod ar gael ar gyfer dyletswyddau eraill, fel hyfforddiant.

3. Diwygiodd Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 Reoliadau 2003 i ganiatáu hyd at bedair sesiwn ym mhob un o'r blynyddoedd ysgol 2006/7 a 2007/8 i gyfrif fel sesiynau y byddai'r ysgol yn cyfarfod pe bai'n ymroi i ddarparu mathau penodol o hyfforddiant.

4. Disodlodd Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008 reoliad 5 newydd yn Rheoliadau 2003 sydd, yn gyffredinol, yn darparu ar gyfer hyd at bedair sesiwn ym mhob un o flynyddoedd ysgol 2008/09 a 2009/2010 i gyfrif fel sesiynau y byddai'r ysgol yn cyfarfod pe bai'n ymroi i ddarparu hyfforddiant, neu baratoi a chynllunio, ar gyfer y canlynol:

- cyflwyno'r cyfnod sylfaen,
- paratoi a gweithredu cynlluniau sydd â'r nod o hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r cyfnod sylfaen ac o un cyfnod allweddol i'r llall, a rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys, yn achos ysgolion uwchradd, y cynlluniau statudol sy'n rhaid eu llunio dan adran 198 o Ddeddf Addysg 2002),
- newidiadau sydd ar ddod yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, a
- chynlluniau Gweinidogion Cymru i ymestyn opsiynau dysgu ar gyfer disgyblion 14-19 oed.

Sesiynau dewisol yw'r rhain ac maent yn ychwanegol at y 5 diwrnod y cyfeirir atynt ym mharagraff 2. Gyda'i gilydd, effaith ymarferol y darpariaethau hyn yw bod yn rhaid i ysgol fod ar agor ar gyfer disgyblion am o leiaf **188** diwrnod mewn blwyddyn academaidd.

Ysgolion sy'n cael eu Hatal rhag Cyfarfod

5. Pan fo ysgol yn cael ei hatal rhag cyfarfod mae'n rhaid iddi wneud iawn am sesiynau a gollwyd lle mae hynny'n ymarferol resymol. Ni ystyrir colli sesiynau yn sgil cau ysgol yn fwriadol oherwydd gwaith adeiladu neu adleoli yn gyfystyr ag ysgol wedi'i "hatal" rhag cyfarfod. Os yw prosiectau o'r fath yn golygu na fydd modd cael mynediad i safle'r ysgol at ddibenion dysgu, yna dylai cyrff llywodraethu wneud eu gorau i sicrhau bod trefniadau amgen yn cael eu gwneud i'r ysgol gyfarfod yn rhywle arall neu ar adeg arall, gan gael cydsyniad staff, disgyblion a rhieni.

Sefydlu'r Diwrnod a Thymor Ysgol

6. Mae adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi:

C VC S N

- Yn achos ysgolion cymunedol, gwirfoddol a reolir neu ysgolion arbennig cymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir:
  i. yr ALl fydd yn pennu'r dyddiadau y bydd tymhorau a gwyliau ysgol yn dechrau a gorffen;
  ii. yn amodol ar baragraffau 7 ac 8 isod, y corff llywodraethu fydd yn pennu amserau sesiynau'r ysgol.

F VA FS

- Yn achos ysgolion sefydledig, gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion arbennig sefydledig, y corff llywodraethu fydd yn pennu'r dyddiadau y bydd tymhorau a gwyliau ysgol yn dechrau a gorffen, yn amodol ar baragraffau 7 a 8 isod, ac amserau sesiynau'r ysgol.

7. Ar ôl i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ddod i rym, mae gan bob ALl yng Nghymru gyfrifoldeb i hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio i wella effeithlonrwydd y trefniadau teithio a wneir, neu sydd am gael eu gwneud, o dan y Mesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y Mesur yn y Canllaw hwn ym Mhennod 15 ar Ymddygiad a Phresenoldeb a Phennod 25 ar Iechyd, Diogelwch a Lles.

8. Mae Adran 21 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn diwygio Adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 fel y gellir, os yw ALl yn fodlon y byddai newid amser sesiwn ysgol ar ddechrau neu ddiwedd diwrnod ysgol, yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio neu'n gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau teithio, newid yr amserau hynny.

F VA FS

9. Nid yw adran 21 yn newid pŵer corff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig i bennu dyddiadau tymhorau a gwyliau.

Newid Amserau Sesiynau Ysgolion

10. Daeth Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 i rym ar 1 Ebrill 2009 (a dirymodd Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000).

Gweithdrefn ar gyfer Newid Amserau Sesiynau Ysgolion gan ALl

11. Mae'r rheoliadau newydd yn cyflwyno gweithdrefnau i gael eu dilyn gan ALl, pan fo'n ystyried bod angen newid amserau sesiynau ar gyfer dechrau neu ddiwedd diwrnod ysgol mewn unrhyw ysgol a gynhelir, fel yr amlinellir ym mharagraff 8 uchod.

12. Os bydd ALl am roi rhybudd i gorff llywodraethu ysgol i ddiwygio amserau sesiynau'r ysgol fel yr amlinellir ym mharagraff 11 uchod, mae'n rhaid iddo:

a. ymgynghori â'r corff llywodraethu, y pennaeth a holl staff yr ysgol;

b. paratoi datganiad yn:

   i. nodi ei fod yn cynnig newid amserau sesiynau'r ysgol;

   ii. nodi'r newid arfaethedig a phryd y mae'n cynnig y dylai ddod i rym;

   iii. rhoi manylion y dyddiad, amser a lle y cynhelir y cyfarfod ac egluro y gall y rhai hynny nad ydynt yn gallu mynychu'r cyfarfod gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y newid arfaethedig cyn cynnal y cyfarfod;

c. llunio'r datganiad hwnnw ac unrhyw atodiad mewn iaith neu ieithoedd (yn ogystal â Chymraeg neu Saesneg), os o gwbl, fel yr ystyria'n briodol;

d. cymryd camau sy'n ymarferol rhesymol i sicrhau:

   i. bod rhieni'r holl ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cael copi (am ddim) o'r datganiad o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod, a

   ii. bod copïau o'r datganiad ar gael i'w harchwilio (ar bob adeg resymol ac am ddim) yn yr ysgol yn ystod y pythefnos yn syth cyn y cyfarfod;

e. darparu cyfle i drafod y cynnig mewn cyfarfod sy'n agored i:

   i. holl rieni'r disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol;

   ii. pennaeth a holl staff yr ysgol;

   iii. aelodau'r corff llywodraethu;

   iv. unrhyw un arall y bydd yr ALl am eu gwahodd;

f. ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (b)(iii) ac unrhyw sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ar y cynnig cyn pennu a ddylid gwneud unrhyw newid i'r amserau hynny ac (os felly) a ddylid gweithredu'r cynnig gyda neu heb unrhyw addasiad.

13. Os yw'r ALl yn penderfynu gweithredu'r newid arfaethedig (gyda neu heb addasiad), mae'n rhaid iddo, o leiaf dri mis cyn i unrhyw newid ddod i rym:

- hysbysu'r corff llywodraethu a'r pennaeth o unrhyw newid a phryd y mae'n dod i rym; a
- chymryd camau sy'n ymarferol rhesymol i sicrhau bod rhieni pob disgybl ar gofrestr yr ysgol yn cael eu hysbysu o hynny.

14. Gall newid i amserau sesiynau ysgol ond dod i rym ar ddechrau blwyddyn ysgol.

15. Bydd trafodion unrhyw gyfarfod a gynhelir o dan y rhan hon o'r rheoliadau o dan reolaeth yr ALl.

Gweithdrefn ar gyfer Newid Amserau Sesiynau Ysgolion gan Gorff Llywodraethu

16. Mae Rhan 4 y rheoliadau newydd yn rhagnodi'r weithdrefn i'w dilyn gan gorff llywodraethu ysgol gymunedol, gwirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir pan fo'n cynnig newid amserau sesiynau ysgol (neu, os mai dim ond un newid sydd, y sesiwn ysgol). Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu:

a. ymgynghori â'r ALl, y pennaeth a holl staff yr ysgol;

b. paratoi datganiad yn:

   i. nodi ei fod yn cynnig newid yr amserau;

   ii. nodi'r newid arfaethedig a phryd y mae'n cynnig y dylai ddod i rym;

   iii. tynnu sylw at unrhyw sylw ar y cynnig sydd wedi'i gynnwys fel atodiad i'r datganiad drwy rinwedd paragraff (c) a chynnwys ymateb i'r sylw fel yr ystyria'n briodol, a

   iv. rhoi manylion y dyddiad, amser a lle y cynhelir y cyfarfod sy'n ofynnol iddo ei gynnal ac egluro y gall y rhai hynny nad ydynt yn gallu mynychu'r cyfarfod gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y newid arfaethedig cyn cynnal y cyfarfod;

c. os yw'n ofynnol gan yr ALl, bydd yn rhaid cynnwys y cyfryw sylwadau ysgrifenedig ar y cynnig a wnaed gan yr awdurdod i'r diben hwnnw, fel atodiad i'r datganiad;

d. llunio'r datganiad hwnnw ac unrhyw atodiad mewn iaith neu ieithoedd (yn ogystal â Chymraeg neu Saesneg), os o gwbl, fel yr ystyria'n briodol neu yn ôl cyfarwyddyd yr ALl;

e. cymryd camau sy'n ymarferol rhesymol i sicrhau:

i. bod rhieni'r holl ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cael copi (am ddim) o'r datganiad ac unrhyw atodiad, o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod, a

ii. bod copïau o'r datganiad ac unrhyw atodiad ar gael i'w harchwilio (ar bob adeg resymol ac am ddim) yn yr ysgol yn ystod y pythefnos yn syth cyn y cyfarfod;

f. darparu cyfle i drafod y cynnig mewn cyfarfod sy'n agored i:

i. holl rieni'r disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol;

ii. pennaeth a holl staff yr ysgol; ac

iii. unrhyw un arall y bydd yr Awdurdod Lleol am eu gwahodd;

g. ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (b)(iv) ac unrhyw sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ar y cynnig cyn pennu a ddylid gwneud unrhyw newid i'r amserau hynny ac (os felly) a ddylid gweithredu'r cynnig gyda neu heb unrhyw addasiad.

17. Os yw'r bwrdd llywodraethu yn penderfynu gweithredu'r newid arfaethedig (gyda neu heb addasiad), mae'n rhaid iddo, o leiaf chwe wythnos cyn i unrhyw newid ddod i rym:

- hysbysu'r ALl o unrhyw newid a phryd y mae'n dod i rym; a
- chymryd camau sy'n ymarferol rhesymol i sicrhau bod rhieni pob disgybl ar gofrestr yr ysgol yn cael eu hysbysu o hynny.

18. Pan fo'r newid yn ymwneud â dechrau neu ddiwedd diwrnod ysgol, ni chaiff y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 17 fod yn llai na thri mis.

19. Gall newid i amserau sesiynau ysgol ond dod i rym:

- lle mae'n effeithio ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod ysgol, ar ddechrau blwyddyn ysgol; ac
- ym mhob achos arall, ar ddechrau'r tymor ysgol.

20. Bydd trafodion unrhyw gyfarfod a gynhelir o dan y rhan hon o'r rheoliadau o dan reolaeth y corff llywodraethu.

Hyd Sesiynau Ysgolion

21. Mae'n rhaid i sesiynau neilltuo digon o amser gwersi i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae gan ysgolion y rhyddid i benderfynu ar hyd pob gwers, ond mae'r argymhellion cyfredol yr wythnos fel a ganlyn:

Oed	Amser gwersi wythnosol gofynnol a argymhellir (oriau)
5-7	21.0
8-11	23.5
12-16	25.0

22. Mae'r amser gwersi wythnosol gofynnol a awgrymir yn golygu'r oriau y mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu. Mae'r oriau gwersi a argymhellir uchod yn cynnwys addysg grefyddol, ond nid ydynt yn cynnwys y weithred o addoli ar y cyd nac yn cynnwys y cyfnod cofrestru ac egwyliau. Dylid neilltuo digon o amser mewn sesiynau ysgolion ar gyfer yr holl weithgareddau hyn.

23. Gall yr amserau fod yn fwy hyblyg ar gyfer ysgolion arbennig. Byddant angen neilltuo amser ar gyfer gweithgareddau sy'n benodol ar gyfer gofynion eu disgyblion, fel hyfforddiant mewn symudedd, iaith arwyddion neu ddefnyddio Braille ac ar gyfer unrhyw driniaethau meddygol sydd eu hangen. Mae hefyd angen iddynt ystyried yr amser y mae disgyblion yn ei dreulio bob diwrnod yn teithio i ac o'r ysgol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dylai ysgolion arbennig ystyried bod y canllawiau ym mharagraffau 21 a 22 uchod yn cynrychioli lefel y ddarpariaeth y dylent geisio'i darparu lle'n ymarferol a lle mae hynny o fudd addysgol i'r disgybl unigol. Wrth bennu oriau gwersi a addysgir, dylai ysgolion arbennig ystyried yr amrywiaeth a'r lefel o waith sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion yn ogystal â'u hoed cronolegol.

S

24. Mae'n rhaid i'r pennaeth sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni ac eraill am amserau dechrau a gorffen sesiynau'r ysgol.

Y Gyfraith

Deddf Addysg 2002, Adran 32
Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003
Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006
Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009